NG35.5.41

David Lewis Wooding, 1878.

# MARWNAD

ER COFFADWRIAETH AM Y

# PARCH. CHRISTMAS EVANS,

## Gweinidog yr Efengyl

## YN MLITH Y BEDYDDWYR,

AM FWY NA 50 O FLYNYDDAU,

*Yr hwn a ymadawodd a'r fuchedd hon, Gorphenaf* 20, 1838, *yn* 72 *Mlwydd Oed.*

---

Cenir ar y dôn, — "Diniweidrwydd."

---

1

Beth yw'r cwynfan a'r galaru sydd yn Nghymru nawr ynglyn,
Beth yw'r tristwch sydd trwy'r gwledydd i'w gweled beunydd ar
bob un?
Clywaf angau a'i awchus gleddau, yn dwey'd myfi a drawa'n drwm,
Nid oes syndod gellwch ganfod, mae fy nyrnod fel y plwm.

2

O na buasai i ti angau fyn'd dros donnau mawrion maith,
I daro rhyw un drwodd yno wrth fyn'd heibio ar dy daith;
Ond yn lle hyny, trist mynegi, canwyll Cymru d'rewaist draw,
CHRISTMAS EVANS wych ai ddoniau ro'wd mae'n ddian'u rhych y
rhaw.

X205302 642

3

Am hyn mae Meirion a'i thrigolion, a Chaernarfon hefyd sy',
A gwlad Mon hawdd ydyw tystio, sydd yn gwisgo ei *mourning* du.
Lle bu lawer o flynyddau yn pregethu Crist a'i groes,
O mor ffyddlon y llafuriodd hyd y parhaodd dyddiau ei oes.

4

Sir Geredigion yn Nghapel Cynon, yw'r lle y magwyd y gwr hy,
Yn Abertawe er mawr alar y rhowd ef yn y ddaear ddu;
Ar ei daith roedd ef trwy Gymru yn casglu arian at Dŷ cwrdd,
Pan y galwodd Duw ef adref, fry gael gwledda wrth y bwrdd.

5

Fe orphenodd ef ei yrfa, fel un ar ei redfa'n rhwydd,
I'r buredig lon baradwys, i orphwys CHRISTMAS aeth o'n gwydd;
Ca'dd fyn'd yn aeddfed i wlad noddfa, a dihangfa mewn da hwyl,
Ac uno a'r Seilo yn Nghaersalem, caiff ganu'r anthem byth i'r wyl

6

Yr oedd ef yn Nhre' Caernarfon, yn wr uniawn farn yn byw,
Fe dystiodd ei ddigoll yn ddygiad, ei fod yn ddeiliad i'r gwir Dduw
Yr oedd pob un a'i hadnabu, yn dwey'd mae'n golygu yn ei le,
Gan bawb 'roedd CHRISTMAS yn ddymunol rhagorol dduwiol ydoedd ef.

7

Mae adsain llefain yn wylofus trwy'n holl ynys wir ac och,
Hawdd hynod canfod rhai yn cwynfan, a'r lleill yn gruddfan yn hur groch,
O achos mudo ein cymydog, enwog, bywiog wr i'r bedd,
Nid oedd ar faes gwn ei rymusach, dewrach na gloywach ei gledd.

8

'Roedd e'n un odiaeth, rhoi' annogaeth i bawb ddysgu cyfraith Duw,
Rhag bod mewn teulu neu ryw dalaeth, neb heb wybodaeth yno'n byw;
Ymdrechodd hyd nes gwelodd 'sgolion, cymerodd droion fawrio draul,
Trwy ofalon y trafaeliai'r achos hyn ni welai'n wael.

9

Yn hwyr yn foreu y llafuriai, ac nid arbedai ei gorph tra bu,
Gwr rhagorol yn ei ddoniau ,ei ffydd ai gymeriadau'n gry';
Ni threuliodd ond ychydig amser, heb wneuthur llawer iawn o les,
Fe ddywedai wrth ddynion, fel o'i galon caem wel'd arwyddion
ynddo o wres.

10

Trwy beryglon mae'n bur eglur, fe gerddai'i lwybr yn y blaen,
Ac er bwriadau ei gau-frodyr, ei attal eglur yw ni wnan';
'Roedd e'n wyliedydd ar fur Seion rhag peryglon yn ei oes,
Neu gyfeiliornadau fyddai'n digwydd, O rhybydd, ie rhybydd roes

11

Er yma ei drigfa fu mewn drygfyd, ef er hyn ga'dd yspryd nef,
Trin y gwirionedd gyda'i enau, O'r fath ddoniau gafodd ef;
Darllenai, esponiai yn ddiau bennod, fel y caem wybod, ie ei gwerth
regethodd, teithiodd hyd nes hunodd, hynod treuliodd ddydd ei
nerth.

12

CHRISTMAS EVANS ddaeth heb oedi, dan faner Iesu'n foreu iawn,
Ac fe ddaliodd ef yn ffyddlon yma'n gyson hyd brydnhawn;
'Roedd e'n barchus trwy'n hardaloedd gyda lluoedd ar bob llaw,
Nes bu iddo brofi'n sydyn mae'n wir arteithiai brenin braw.

13

Un oedd hynod o ddeallus, doeth a dawnus oedd efe,
Ef mi dd'weda mewn Cymanfa drefnau bethau yn ei lle;
Ac hefyd fe bregethai'n bwyllig y meddyg i'r gwywedig rai,
Fe ddywedai'n danbaid am y ceidwad i bechaduriaid mawr eu bai.

14

Diau fod hiraeth drwy'r gym'dogaeth lle 'roedd CHRISTMAS ynddi'n
byw,
Ond er hyn gwell bod yn foddlon i orchwylion doethion Duw;
Ca'dd e' fyn'd i'r anneddle lonydd lle na ddaw'n dragywydd boen,
Ond fe gaiff ganu'n beraidd rhyfedd, byth am rinwedd gwaed yr
Oen.

15

Diangodd CHRISTMAS ar bob gelyn, ni chaiff ddychryn byth na
braw,
Aeth drwy'r hen Iorddonen donog yn galonog drwodd draw;
Ca'dd gario palmwydd yn lle cleddau, a diau goron yn lle croes,
Fe ga'dd ddiwedd ar bob tristwch, hedodd adref uwch pob loes.

16

Mae 'nawr a'r delyn aur yn chwareu, ac y mae'r tannau oll yn dynn,
Yn hardd ganu yno'n gyson per ganiadau Seion fryn;
Fe ga'dd goncwest ar y gelyn, fe ga's fyddin dan ei droed,
Mae heddyw'n mhell o swn rhyfela glywir yma is y rhod.

17

Wel bellach Seion gad dy alar, er iti golli cymhar gwiw,
A bod i'w briod ef hyderu yn yr Iesu tra bydd byw;
Yr ugeinfed o Orphenaf y collaist CHRISTMAS dywedaf hyn,
Ymdrechodd ganu rhaid mynegu, pan oedd yn wynebu'r glyn.

18

'Run modd yn barod byddo'n ninau cyn i dd'wrnod angau ddod,
Rhow'n yn ein lampau ras yn olew tra yma yn y byd yn bod;
Ni gawn wedyn yn y diwedd wlad trugaredd annedd wen,
Os rhodiwn ffyrdd yr Iesu grasol, trag'wyddol wynfyd gawn
Amen.

EDWARD JONES, Mon, a'i cant.

## DIWEDD.

*T. Price, Argraffydd, Merthyr.*